ystadau cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cydweithio i gael y gorau o’r ystad gyhoeddus
Working together to make the best use of the public estate

# Astudiaethau Achos







# 1 Sefydliad Glyn Ebwy



Sefydliad Glyn Ebwy yw'r Sefydliad hynaf o'i fath yng Nghymru. Mae'n adeilad rhestredig Gradd II ac fe'i codwyd yn 1849. Roedd perygl iddo ddiflannu oherwydd bod angen gwaith atgyweirio ac adnewyddu helaeth arno. Ni allai'r perchennog, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ymrwymo i'w ariannu.

Yn 2007, daeth proMo-Cymru at y Cyngor i ysgwyddo'r dasg fawr o achub ac adfer adeilad hanesyddol y sefydliad a'i droi'n ganolfan ddiwylliannol gynaliadwy ar gyfer gweithgarwch cymunedol a dysgu; sef ei swyddogaeth wreiddiol pan agorodd ei ddrysau. Hwn oedd y sefydliad addysgol cyntaf yng Nghymru. Dechreuodd y daith i adfer y Sefydliad i'w hen ogoniant drwy gael arian cychwynnol gan Brosiect Blaenau'r Cymoedd. Ar ôl lansio Cronfa Drosglwyddo Asedau Cymunedol y Loteri Fawr, daeth ProMO-Cymru wedyn at y Cyngor i ofyn am drosglwyddo ased cymunedol dan rydd-ddaliad. Cwblhawyd y trosglwyddiad ym mis Mai 2012 a sicrhawyd grant gwerth £750,000 gan y Loteri Fawr i gwblhau'r gwaith adfer.

**Busnes**

Cafodd ProMo-Cymru Ltd, sy'n elusen gofrestredig, ei sefydlu yn 1982 fel Cymdeithas Ddatblygu Gydweithredol ar gyfer De Cymru i ddatblygu, hyfforddi a helpu busnesau, gan ddefnyddio egwyddorion gweithio'n gydweithredol ac agweddau ar ddatblygu cymunedol lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae'r themâu sy'n sail i waith ProMo-Cymru yn cynnwys grymuso, cynnal a datblygu pobl ifanc a gweithio mewn partneriaeth â phobl eraill mewn cyd-destun cymdeithasol ac economaidd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygiad personol a chymunedol.

Mae Sefydliad Glyn Ebwy a Phrosiect y Ganolfan Ddiwylliannol yn un o fentrau arloesol ProMo-Cymru.

**Manylion**

Mae'r Sefydliad yn darparu'r gwasanaethau a ganlyn:

- Caffi – sydd ar agor i'r cyhoedd ac yn cynnig byrbrydau a phrydau a wifi am ddim;
- Hyfforddiant a gweithdai – mae'r cyrsiau'n cynnwys gwersi cerddoriaeth, rheoli digwyddiadau, dosbarthiadau celf a ffotograffiaeth. Gellir llogi cyfleusterau hyfforddi at ddefnydd preifat;
- Lleoliad gyda Bar Trwyddedig – digwyddiadau, cyngherddau, brecwastau priodas a phartïon;
- Cyfleusterau Cynadledda – cyfleusterau cynadledda llawn, gan gynnwys lle ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd ac ystafelloedd llai ar gyfer grwpiau trafod;
- Stiwdio Recordio – cyfleusterau recordio o'r math diweddaraf un ar gael ar gyfer hyfforddiant, gweithdai a llogi preifat;
- Ystafelloedd Ymarfer – ystafelloedd ymarfer cerddoriaeth â'r holl gyfarpar sydd ei angen a stiwdios dawns;
- Golygu Fideo – Ystafell golygu fideo gyda rhaglenni Apple, ar gael ar gyfer gweithdai hyfforddi ac i'w llogi'n breifat; and
- Canolfan Ddeori i Fusnesau – yn darparu desgiau poeth, cyfleusterau proffesiynol a chymorth i fusnesau sy'n dymuno datblygu a thyfu.

Mae'r adeilad bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ystod eang o swyddogaethau gan gynnwys seremonïau gwobrwyo, cyfarfodydd busnes, priodasau, digwyddiadau cerddorol, hyfforddiant ac addysg, cymdeithasu cymunedol a llawer mwy. Bydd ProMo-Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o grwpiau a sefydliadau gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, BRFM (gorsaf radio gymunedol), y Clwb Rotari, Academi Encore, Sêr Ifanc Blaenau Gwent, Cymdeithas Operatig Glyn Ebwy a Choleg Gwent.

## Manteision

Y prif fanteision yn sgil Promo Cymru'n ysgwyddo perchnogaeth Sefydliad Glyn Ebwy yw: –

- Mae'r adeilad wedi'i achub fel cyfleuster i'r gymuned; and
- Drwy newid perchnogion, gellid defnyddio arian grant nid dim ond i wneud y gwaith brys angenrheidiol i achub yr adeilad, ond hefyd i adnewyddu'r tu mewn i safon uchel gan gynnwys bwyty/caffi, stiwdio recordio o'r math diweddaraf un, Prif Neuadd i ddigwyddiadau sy'n gwasanaethu'r gymuned a busnesau lleol ac ystafelloedd a chyfleusterau hyfforddi at ddibenion addysgiadol. Gan mai elusen yw ProMo-Cymru, gall fod yn llawer mwy hyblyg yn yr hyn y mae'n gallu ei gynnig o ran gwasanaeth. Mae ganddi hefyd y rhyddid i wneud cais am arian grant i helpu i gynnal a chadw'r cyfleuster. Mae hyn yn cynnwys sefydlu a chynnal ystod eang o brosiectau gan gynnwys cerddoriaeth, drama, addysg oedolion a chyrsiau cymunedol, rhai sy'n arwain at dystysgrif, eraill er mwyn pleser yn unig.





## Gwersi a Ddysgwyd

- Bod yn hyblyg o ran pa fath o ddeiliadaeth i'w throsglwyddo; and
- Roedd trosglwyddo'r ased cymunedol hwn yn gofyn i'r Cyngor fod yn fwy hyblyg ynghylch y math o ddeiliadaeth yr oeddent yn barod i'w drosglwyddo. Ar y dechrau, dim ond les-ddaliad yr oeddent yn barod i'w ystyried. Ond, roedd amodau'r cyrff rhoi grantiau a oedd yn buddsoddi arian sylweddol megis y Loteri Fawr yn pennu bod rhaid cael trosglwyddiad rhydd-ddaliad. Felly, sicrhaodd y Cyngor wedyn y byddai eu Polisi Trosglwyddo Asedau Cymuned, er y rhagdybid mai ar sail les-ddaliad y byddai trosglwyddiadau'n digwydd, yn dal i gynnig yr hyblygrwydd i drosglwyddo rhydd-ddaliad o dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft lle'r oedd arian grant sylweddol yn dibynnu ar hynny.

**Cyswllt:**

**Samantha James**,
Cydlynydd Gweithrediadau
EVi, Glyn Ebwy sam@ebbwvaleinstitute.org
01495 708022
**Mark Howland**
Swyddog Asedau Eiddo ac Adolygu
CBS Blaenau Gwent
Mark.Howland@blaenau-gwent.gov.uk

# 2 Neuadd Ogwen



Ym mis Medi 2012, derbyniodd Adran Ystadau Cyngor Gwynedd argymhelliad i drosglwyddo rhydd-ddaliad canolfan gelfyddydau a cherddoriaeth, Neuadd Ogwen, i gyfrifoldeb menter gymdeithasol y Tabernacl (Bethesda) Cyf. Roedd y trosglwyddiad yn cynnwys parsel o dir sy'n ffinio â'r adeilad. Pwrpas y trosglwyddiad oedd sicrhau cyllid i ailddatblygu'r ganolfan.

**Busnes**

Sefydlwyd menter gymdeithas y Tabernacl 20 mlynedd yn ôl i ddathlu'r bywyd celfyddydol lleol ym Methesda, cartref i nifer o artistiaid Cymreig llwyddiannus gan gynnwys y cerddor o fri rhyngwladol, Gruff Rhys, prif ganwr Super Furry Animals. Roedd y Tabernacl yn gallu manteisio ar arian nad oedd ar gael i'r awdurdod lleol. Roedd wedi sicrhau grant o £600 mil gan raglen Trosglwyddo Asedau Cymuned y Gronfa Loteri Fawr i ailddatblygu Neuadd Ogwen. Yn ogystal, roedd wedi sicrhau £312 mil o gronfa leol Adfywio Môn Menai ar gyfer y prosiect adeiladu.

**Manylion**

Trosglwyddwyd yr ased am swm nominal o £1. Roedd hyn oherwydd yr amod yn y les a oedd yn cyfyngu sut y gellid ei ddefnyddio, bwriad y Cyngor i gynnwys y 'cymal adfachu' yn y telerau trosglwyddo ac yn olaf, fod yr adeilad eisoes wedi'i osod i'r Tabernacl.



### Manteision

Ar bapur, roedd trosglwyddo Neuadd Ogwen i fusnes menter gymdeithasol yn broses syml. Roedd nifer o ffactorau'n help i Gyngor Gwynedd a'r Tabernacl yn y broses drosglwyddo.

- Trosglwyddo baich cyhoeddus i asedau cymunedol;
- Hyrwyddwr awdurdod lleol; and
- Mentora gan gymheiriaid i fentrau cymdeithasol.

Nid oedd y Tabernacl wedi llwyddo yn ei gais cyntaf i'r Gronfa Loteri Fawr ar gyfer grant Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Wrth baratoi ar gyfer ei gais i'r rownd ymgeisio derfynol, cefnogwyd y fenter gymdeithasol gan fentor-cymheiriad, Promo Cymru. Roedd y mentor wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol yn ei gais am arian grant ac roedd yn gallu rhoi cyfarwyddyd a gwybodaeth i'r Tabernacl.

### Gwersi a Ddysgwyd

Dylai awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol sy'n ystyried trosglwyddo ased ystyried y materion a ganlyn:

- Cyfrifoldebau'r ddau barti sy'n ymwneud ag ased;
- Annog mentro ac arloesi ar ôl pwyso a mesur;
- Cydweithio priodol a llwyddiannus rhwng y rhanddeiliaid; and
- Ffioedd cyfreithiol yn gymwys mewn ceisiadau am grant.



**Cyswllt:**

**Anwen Davies**
Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol
Cyngor Gwynedd Anwendavies@gwynedd.gov.uk
01286 679810



## 3 Marchnad Gaws y Gelli Gandryll

### Adeilad rhestredig Gradd II yw Marchnad Gaws y Gelli Gandryll. Roedd gofyn buddsoddi'n helaeth ynddo ac yr oedd Cyngor Sir Powys wedi dweud nad oedd ei angen arno bellach.

Roedd Menter Gymunedol CIC y Gelli Gandryll yn dymuno cael les am rent nominal. Byddai rhoi les o'r fath yn caniatáu i'r sefydliad wneud cais am grant Trosglwyddo Asedau Cymunedau o dan y Gronfa Loteri Fawr/Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac adfer yr adeilad yn gyfleuster i'r gymuned. Cwblhawyd Achos Busnes Cyngor Sir Powys ac Arolwg Strwythurol. Llwyddwyd i gaffael yr eiddo yn y lle cyntaf gan Gyngor Dosbarth Trefol y Gelli ac mae nifer o gyfamodau'n cyfyngu ar ei ddefnydd.

## Busnes

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gyflawnwyd yn 2008, roedd mandad clir gan bobl y Gelli Gandryll i gefnogi trosglwyddo adeilad y Farchnad Gaws o'r Cyngor Sir, am swm nominal, i Fenter Gymunedol CIC y Gelli er mwyn sicrhau ei fod yn dal i gael ei ddefnyddio gan drigolion lleol ac ymwelwyr. Bydd yr adeilad yn galluogi Menter Gymunedol CIC y Gelli Gandryll i godi rhagor o fewnfuddsoddi a fydd yn ategu'r economi leol ac yn creu swyddi yn y tymor byr.

Drwy ddefnyddio'r Farchnad Gaws i lansio mentrau eraill, bydd cynllun Menter Gymunedol CIC y Gelli, yn y tymor canol i'r tymor hir, yn sicrhau rhagor o fewnfuddsoddi ac yn ei galluogi i sefydlu nifer o fentrau sy'n creu swyddi hyfyw, ac a fydd, maes o law, yn ategu economi leol ffyniannus.

Yn ogystal â'r budd economaidd, bydd adeilad y farchnad gaws yn dwyn manteision cymdeithasol yn sgil y mentrau y bydd yr adeilad yn gartref iddynt a'r rheini o fudd i holl drigolion y Gelli ac ymwelwyr.

Y bwriad oedd adnewyddu'r adeilad drwy ddefnyddio deunyddiau a dulliau amgylcheddol cynaliadwy fel y byddai'n enghraifft o arferion da o fewn cyfyngiadau adnewyddu adeilad rhestredig Gradd II.

## Manylion

Roedd CIC y Gelli'n bwriadu adnewyddu'r adeilad, creu gofod cymunedol ar y llawr gwaelod ac adnewyddu'r llawr cyntaf yn llety gwyliau a fyddai'n darparu incwm refeniw hanfodol. Cyflwynwyd y cais cychwynnol am TAC i Gyngor Sir Powys yn 2009.

Roedd y Cyngor, ar ôl ystyried yr Achos Busnes, wedi cytuno i roi les hir am rent nominal. Roedd hyn yn caniatáu i'r grŵp ffurfioli ei geisiadau am grant.

Cwblhawyd les hir yn ystod haf 2013 ar ôl cadarnhau'r ariannu.

## Manteision

- Mae'r adeilad rhestredig nodedig wedi cael ei gadw mewn ffordd sensitif yn dystiolaeth o ddulliau adeiladu traddodiadol;
- Roedd y cynllun yn cynnwys ymgysylltu'n helaeth â chymunedau drwy gynnal digwyddiadau niferus; and
- Mae adeilad nodedig wedi'i gadw at ddefnydd a mwynhad y gymuned.

## Gwersi a Ddysgwyd

Pan fydd angen atgyweirio adeilad rhestredig a bod gofyn cydymffurfio â chyfyngiadau cyfreithiol, rhaid peidio byth â thanamcangyfrif faint o amser a gymer i gyrraedd cerrig milltir allweddol. Mae'r prosiect hwn wedi cymryd dros 4 blynedd i'w gwblhau ac mae bellach wedi cyrraedd y cam lle mae'r grŵp yn gallu dechrau gwireddu ei amcanion.

**Cyswllt:**

Adran Eiddo Corfforaethol, Adfywio ac Eiddo Corfforaethol Cyngor Sir Powys
01597 826055
property.sales@powys.gov.uk

# 4 Gwesty Seren



Mae'r achos hwn o Drosglwyddo Ased Cymunedol wedi galluogi i gartref preswyl i'r henoed oedd wedi cau, oedd yn eiddo i Gyngor Gwynedd, gael ei ailagor fel gwesty sy'n amcanu at ddarparu gwyliau antur seibiant i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae Gwesty Seren yn Llan Ffestiniog yn eiddo i, ac yn cael ei reoli gan, fenter gymunedol Seren Ffestiniog Cyf, ac mae'n agored i bob aelod o'r cyhoedd, yn ogystal â darparu gwyliau antur seibiant ar gyfer cleientiaid penodol. Cwblhawyd y Trosglwyddo Ased Cymunedol yn 2011-12 ac fe'i hariannwyd gan Gronfa'r Loteri Fawr, Magnox, Llywodraeth Cymru (Croeso Cymru), Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, a gan fuddsoddiadau a benthyciadau Seren Ffestiniog. Roedd y gefnogaeth gan Gronfa'r Loteri Fawr yn cynnwys cymorth cyfalaf a refeniw.

## Busnes

Mae Gwesty Seren yn brosiect dielw; mae'r gwesty yn cynnwys cyfleusterau megis ystafell hydrotherapi ac ystafell synhwyraidd, yn ogystal â nodweddion eraill nad ydynt i'w gweld fel arfer mewn gwestai. Mae'n gweithio gydag amrywiaeth o fusnesau lleol er mwyn cynnig gweithgareddau antur a hamdden ar hyd a lled Eryri. Mae'r addasiadau a wnaethpwyd i'r gwesty er mwyn gallu gwasanaethu gwesteion sy'n wynebu amrywiaeth o heriau sy'n gysylltiedig â symudedd ac anabledd, yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol gan Seren Ffestiniog Cyf er mwyn eu gallu marchnata eu cyfleuster fel rhywle sy'n cynnig budd cymdeithasol penodol.
Mae Seren Ffestiniog Cyf, a sefydlwyd yn 1996, yn cefnogi ac yn cyflogi pobl ag anableddau dysgu. Gyda mwy na 60 o gyflogeion llawn amser a rhan amser, Seren Ffestiniog Cyf yw'r ail gyflogwr mwyaf ym Mlaenau Ffestiniog. Maent hefyd yn berchen ar, ac yn cynnal, nifer o fentrau cymdeithasol yng Ngwynedd.


## Manylion

Prynwyd yr eiddo gan Gyngor Gwynedd am bris gostyngedig oedd yn is na'r pris a roddwyd gan y Prisiwr Rhanbarth a'r Prisiwr Arbenigol, ac fe'i hagorwyd ym mis Ebrill 2014, gan gynhyrchu elw bychan yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae'r cyfleuster hefyd wedi derbyn grant cyfalaf gan Gronfa'r Loteri Fawr a grant refeniw taprog hefyd am gyfnod o bum mlynedd.

## Buddion

Mae'n brosiect unigryw ac arloesol sy'n amcanu at roi cymorth i bobl ag anableddau a phobl sy'n wynebu amgylchiadau heriol, ac mae presenoldeb ar Booking.com a dolenni i nifer o gwmnïau gwyliau wedi'u teilwra wedi golygu bod y cyfleuster wedi gallu ymestyn yn ehangach.

**Cysylltwch ag:**
**Anwen Davies**
Rheolwraig Cyswllt Mentrau Cymdeithasol
Adran Cymorth Corfforaethol,
Cyngor Gwynedd
Anwendavies@gwynedd.gov.uk
**Rheolwr, Gwesty Seren**
01766 513 133
info@serencyf.org




# 5 Canolfan Gymunedol Plasnewydd

## Mae Trosglwyddo Ased Cymunedol Canolfan Gymunedol Plas Newydd yn Y Rhath, Caerdydd wedi galluogi YMCA i ymestyn ei waith yng Nghaerdydd ac ehangu'r gwasanaethau ac mae'n eu darparu i'r dyfodol.

YMCA yw un o elusennau ieuenctid hynaf y DU. Yng Nghaerdydd mae YMCA wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc a'r gymuned ehangach ar hyd a lled y ddinas ers 1852. Felly, maent wedi hen sefydlu eu hunain ac mae ganddynt adnoddau a hanes o gyflawni.
Ar hyn o bryd maent yn cynnal amrywiaeth o brosiectau sy'n cefnogi pobl ifanc o gwmpas Caerdydd a Bro Morgannwg, yn cynnwys prosiectau sy'n cefnogi gofalwyr ifanc yn y ddwy sir, a chyngor iechyd rhyw arbenigol i bobl ifanc o gwmpas y sir mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Maent hefyd yn darparu llety i'r digartref a chymorth i bobl ifanc sy'n agored i niwed, gyda dros 100 o welyau ar gael o gwmpas y ddinas.

ystadau cymru

**Busness**

Yng Nghaerdydd, mae portffolio YMCA yn cynnwys dwy gampfa, theatr ac ystafelloedd cymunedol, sydd ar gael i glybiau a grwpiau lleol fel rhan o'u mentrau ymgysylltu â'r gymuned ehangach.

Roedd gan YMCA ddiddordeb mewn Trosglwyddo Ased Cymunedol Canolfan Gymunedol Plasnewydd, oherwydd y byddai'n galluogi'r elusen i ymestyn ei waith yng Nghaerdydd y tu hwnt i'w prif safle yn The Walk, ac yn atgyfnerthu gwaith yr elusen gyda'r gymuned a phobl ifanc o gwmpas y ddinas.

Mae Canolfan Gymunedol Plasnewydd wedi bod yn adnodd cymunedol gwerthfawr yn yr ardal leol ers peth amser, a bu trigolion, grwpiau a theuluoedd eraill yn defnyddio'r safle dros y blynyddoedd. Felly, mae'r TAC wedi darparu cyfle i fanteisio ar yr ymgysylltu hwn er mwyn targedu gwelliannau mewn perthynas â defnyddwyr presennol a defnyddwyr newydd posibl.

**Manylion**

Ar ddiwedd 2013-14, fel rhan o'i broses pennu Cyllideb, nododd Cyngor Caerdydd ei fod yn ceisio mynegiant o ddiddordeb mewn perthynas â'r posibilrwydd o Drosglwyddo Ased Gymunedol Canolfan Gymunedol Plasnewydd. Er iddo gydnabod nad oedd ganddo'r adnoddau i barhau i gynnal y Ganolfan a'u bod felly wedi ei chlustnodi ar gyfer ei chau, eglurodd bod angen a galw parhaus am y Ganolfan, ac felly cynigiodd geisio datrysiad drwy'r broses o drosglwyddo asedau. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet, bu angen tua 12 mis o drafod cyn i'r trosglwyddiad gael ei gwblhau ym mis Ebrill 2015.

Amodau'r Trosglwyddo Ased Cymunedol oedd:

- Les 99 mlynedd gan nad oedd y Cyngor yn gallu rhyddhau rhydd-ddaliad y safle;
- Dim rhent i'w dalu am y 25 mlynedd cyntaf;
- Y rhent cytunedig i'w bennu ar lefel rhent tir;
- Rhaid i'r safle gael ei ddefnyddio at ddiben cymunedol.

**Buddion**

Mae'r Trosglwyddo Ased Cymunedol wedi hwyluso ailddatblygu'r safle, ac wedi galluogi YMCA i greu canolfan mewn partneriaeth â phartneriaid fydd yn canolbwyntio ar raglenni iechyd a lles, darpariaethau gofal plant a mynediad i adnoddau cymunedol.

Ystyriwyd y byddai'r ailddatblygiad hwn yn fuddiol yn yr hirdymor i YMCA, y bobl maent yn eu cefnogi a'r gymuned. Mae'r trosglwyddo ased wedi sicrhau cyfleuster ym Mhlasnewydd sy'n darparu targed ar gyfer ymgysylltu cymunedol a chydlyniant cymunedol mewn perthynas ag amrywiaeth o amcanion datblygu cymunedol.

Mae wedi galluogi i YMCA Caerdydd ddatblygu rhaglen fuddsoddi strategol 5 mlynedd ar gyfer y safle, gan adnewyddu'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu ar draws eu portffolio yng Nghaerdydd.

**Gwersi**

Mae'r ddau barti wedi dysgu llawer o ganlyniad i'r broses drosglwyddo a bu'n rhaid cyfaddawdu er mwyn sicrhau y gellid gwireddu'r trosglwyddiad. Ar yr adeg y gwnaethpwyd y trosglwyddiad, nid oedd gan Gyngor Sir Caerdydd broses sefydledig ar gyfer trosglwyddo asedau. Er hyn, bu'r trosglwyddiad yn llwyddiannus o ganlyniad i ymrwymiad gan y ddwy ochr i gydweithio, gyda'r ddau barti yn barod i gymryd ychydig o risg drwy gyfaddawdu er mwyn datrys materion. Dau faes penodol o anghytuno y bu angen peth amser er mwyn eu datrys oedd Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 mewn perthynas â staff, a'r cytundeb les.

Ym mis Hydref 2014 cyhoeddodd Cyngor Caerdydd eu Pecyn 'Camu Ymlaen' ar gyfer cefnogi eu proses o drin ceisiadau i ymgymryd â rheoli gwasanaeth neu ased cymunedol a reolwyd o'r blaen gan gorff cyhoeddus yn ardal Caerdydd.

**Cysylltwch â:**
**Ystadau Strategol, eiddo Cyngor Caerdydd**
propinfo@cardiff.gov.uk
Andrew Templeton Prif Weithredwr YMCA Caerdydd Andrew.Templeton@cardiffymca.co.uk

# 6 Tŷ Carnegie




## Yn ystod 2013 cychwynnodd Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr gynllunio ar gyfer ail-leoli Siambr y Cyngor mewn cyn adeilad llyfrgell gyhoeddus yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn ogystal â hyn, roedd y sefydliad celf lleol, Bridgend Arts Ltd wedi nodi diffyg lleoliad ar gyfer celfyddyd yng nghanol y dref ac na allai gynnig lleoliad i artistiaid ddod ynghyd a chyflwyno eu gwaith. Bu i aelodau o Bridgend Arts Ltd gyfarfod â Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer sut y gellid defnyddio hen lyfrgell y dref er mwyn ymateb yn greadigol i'r sefyllfa hon.

Drwy gydweithio, ac ar ôl trafodaethau manwl â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bu i'r Cyngor Tref symud i gyn adeilad y llyfrgell gyhoeddus ar Stryd Wyndham, Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Ionawr 2014. Roedd yr adeilad yn wreiddiol yn llyfrgell a sefydlwyd gan Andrew Carnegie. Gyda caniatâd gan Ymddiriedolaeth Carnegie ar gyfer cofio am y gorffennol, ailenwyd yr adeilad yn Tŷ Carnegie.

ystadau cymru

**Busnes**

Nod Tŷ Carnegie yw darparu digwyddiadau a gweithgareddau celf a diwylliannol o safon uchel. Mae hyn yn cynnwys rhaglen o ddigwyddiadau proffesiynol yn ogystal â gweithgareddau cymunedol ac addysgol sy'n annog pobl leol i gymryd rhan mewn celfyddyd yn ei holl agweddau gwahanol. Mae digwyddiadau a gynhelir yn y lleoliad yn cynnwys perfformiadau byw, dosbarthiadau celf, gweithdai, digwyddiadau cerddorol ac arddangosiadau.

Mae llawr cyntaf yr adeilad yn gartref i Siambr Cyngor y Dref, Ystafell y Bwrdd a swyddfa staff, tra bod y llawr isaf ac ardal oriel fechan ar y llawr cyntaf wedi eu neilltuo ar gyfer y Celfyddydau.

Mae Cyngor y Dref wedi defnyddio ei gyllid er mwyn adnewyddu'r adeilad. Mae hyn wedi cynnwys gosod system wresogi newydd, adnewyddu ac ailaddurno ystafelloedd y llawr isaf a'r llawr cyntaf (mewn lliwiau Edwardaidd), gosod llawr newydd yn y fynedfa, ar y grisiau ac ar y llawr cyntaf i gyd a'r brif neuadd.

Ym mis Medi 2014, derbyniodd Cyngor y Dref grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru er mwyn datblygu rhaglen o ddigwyddiadau yn y lleoliad yn ystod 2015. Sicrhawyd mwy o gyllid yn ddiweddarach i gynnal rhaglen o ddigwyddiadau yn ystod 2016.

Er mwyn gwella'r dull o ddarparu rhaglen newydd o ddigwyddiadau, bu i Gyngor Celfyddydau Cymru roi arian cyfalaf, a derbyniwyd arian cyfatebol gan Gyngor y Dref. Bwriedir i'r arian hwn gael ei ddefnyddio i wella mwy ar gyfleusterau ac offer yr adeilad – darparu llwyfan, goleuadau, system sain a byrddau arddangos, yn ogystal â gwneud addasiadau sylweddol i'r brif neuadd.

Bydd y gwaith mewnol y gwella llinellau gweld y gynulleidfa drwy leihau maint y colofnau canolog a gwella acwsteg yr ystafell drwy gael gwared â'r nenfwd crog.

Cafodd prosiect i atgyweirio ac adfer gwaith cerrig allanol yr adeilad ei ariannu gan Grant Treftadaeth y Loteri a derbyniwyd arian cyfatebol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

**Manylion**

Erbyn diwedd rhaglen 2015, roedd y Ganolfan wedi rhaglennu:

- 17 o ddigwyddiadau Datblygu Artistiaid;
- 18 o ddigwyddiadau celfyddydol proffesiynol, yn cynnwys drama a theatr, llenyddiaeth ac adrodd straeon, geiriau ar lafar a chomedi, cerddoriaeth a chelfyddyd weledol;
- Amrywiaeth o weithgareddau, yn cynnwys perfformiadau a gweithdai ar gyfer 4 digwyddiad tymhorol; and
- Amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd penodol – plant a phobl ifanc, oedolion a phobl hŷn, teuluoedd Cymraeg a phlant ag anableddau.

**Buddion**

Roedd Cyngor y Dref a Thŷ Carnegie yn amcanu at ymgysylltu ac ysbrydoli pobl, cynulleidfaoedd ac artistiaid Pen-y-bont ar Ogwr, drwy ddarparu cyfleoedd i bobl fod yn greadigol, mwynhau profiadau diwylliannol newydd ac ymgysylltu â bywyd y gymuned. Mae Trosglwyddo Ased Cymunedol oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi golygu bod adeilad dinesig yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd unwaith eto, gan droi adeilad hanesyddol yn adeilad perthnasol drwy ddarparu canolbwynt ar gyfer y celfyddydau a'r cyfryngau creadigol yn yr ardal.
Mae'r llyfrgell a symudwyd o Dŷ Carnegie wedi elwa hefyd o symud i leoliad mwy pwrpasol ger canol y dref, gydag amwynderau priodol, ynghyd â chyfleusterau hamdden eraill yn cael eu darparu mewn lleoliad amlbwrpas yn y ganolfan hamdden. Ymddiriedaeth Halo sy'n rheoli'r cyfleuster hamdden, ac mae wedi gwario swm sylweddol ar adnewyddu'r gofod. Mae'r niferoedd sy'n ymweld â'r llyfrgell wedi cynyddu ar ôl ail-leoli, er iddi gael ei symud o ganol y dref.

Mae'r adeilad oedd yn wreiddiol yn gartref i Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyrion y dref wedi cael ei werthu i ddatblygwr preifat fydd yn ailddatblygu'r safle.

Erbyn hyn mae Cyngor y Dref mewn lleoliad canolog sydd wedi codi ei broffil ac wedi gwella ei welededd a'i hygyrchedd, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyfuno ei bresenoldeb ochr yn ochr â swyddogaethau eraill y Cyngor.

**Cysylltwch â:**
**Uwch Syrfëwr**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Leanne Edwards Clerc Tref
Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr
bridgend.tc@bridgend.gov.uk




# 7 Galeri Caernarfon

Mae Galeri Caernarfon Cyf yn fenter gymunedol ddielw preifat sy'n gweithredu fel ymddiriedolaeth ddatblygu yn nhref hanesyddol Caernarfon yng Ngwynedd, Gogledd Cymru. Fe'i sefydlwyd yn 1992 (o dan ei enw blaenorol, Cwmni Tref Caernarfon) er mwyn "*cynnal prosiectau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol er lles y gymuned yng Nghaernarfon a'r cylch*" gan y Prif Weithredwr presennol Gwyn Roberts mewn partneriaeth â chydweithwyr o amryw fusnesau preifat a grwpiau cymunedol, yn ogystal â'r Awdurdod Lleol.

### Busnes

Mae canol Caernarfon erbyn hyn yn Safle Treftadaeth y Byd, ond yng nghanol y 1980au roedd dros hanner adeiladau'r dref furiog yn adfeilion, yn wag neu ar werth. Briff cyntaf Cwmni Tref Caernarfon oedd prynu ac yna adnewyddu detholiad o'r adeiladau pwysicaf yn eu plith. Roedd ganddynt weledigaeth menter gymdeithasol glir o'r cychwyn, a hyd yma maent wedi adnewyddu ac ailwampio dros 28 o adeiladau gwag a segur yn y dref, sydd erbyn hyn yn nwylo tenantiaid, yn cynnwys siopau, swyddfeydd, fflatiau, dau gaffi, canolfan hyfforddi cerddoriaeth a thafarn.

Datblygu 'Canolfan Menter Greadigol Galeri' fu prosiect mwyaf a mwyaf uchelgeisiol yr Ymddiriedolaeth hyd yma. Mae hon yn Ganolfan Fenter Greadigol newydd sy'n werth £7.5m, ac agorodd ei drysau yn Noc Fictoria ar 7 Mawrth 2005. Mae'r ganolfan yn gartref i awditoriwm hyblyg gyda 400 o seddi, sydd hefyd yn cael ei defnyddio fel sinema (y lleoliad cyntaf ar gyfer adloniant byw yng Nghaernarfon ers 20 mlynedd), nifer o stiwdios ymarfer, gofod celf, caffi a bar, ystafelloedd i'w llogi, cyfleusterau cynadledda a 27 swît i fentrau, sydd ar hyn o bryd yn gartref i 15 o gwmnïau creadigol, a phob un yn ymwneud â gwaith artistig neu greadigol.

### Buddion

- Dod â phobl yn ôl i ganol y dref fel trigolion, siopwyr neu ymwelwyr;
- Roedd adfywio'n gatalydd ar gyfer adfywiad economaidd Caernarfon, gan greu safleoedd manwerthu a swyddfeydd newydd a gwella'r amgylchedd adeiledig drwy wneud gwaith adnewyddu ac ailwampio o safon uchel yn yr adeiladau hyn;
- Mae'r gymuned wedi ei grymuso ac fe'i cefnogir fel rhan ddeiliad allweddol yn y prosiect;
- Fel menter gymdeithasol ac ymddiriedolaeth ddatblygu, mae Galeri yn gwbl annibynnol a chaiff ei gyrru yn ei blaen gan ei chenhadaeth gymdeithasol, ddiwylliannol ac economaidd. Mae 20 o adeiladau wedi cael eu hadfer ers 1992, yn cynnwys adeiladau masnachol a phreswyl a thafarn. Roedd nifer yn adeiladau rhestredig yn y dref furiog ac mae'r dref erbyn hyn wedi derbyn Statws Treftadaeth y Byd;
- Adeiladwyd ar fuddion, profiad a hanes Caernarfon a throsglwyddwyd hynny i'r 5 dyffryn chwareli llechi sy'n amgylchynu Caernarfon, oedd yn dioddef o esgeulustod cymdeithasol, ffisegol ac economaidd sylweddol;
- Bu i lwyddiant Prosiectau Celf Caernarfon (SBARC) helpu i lunio'r achos o blaid a'r angen am Ganolfan Menter Greadigol Galeri; and
- Mae'r rhent a dderbynnir o bob eiddo a gwblhawyd yn helpu i dalu am waith adnewyddu dilynol. Mae gwargedion ariannol yn helpu i ariannu'r Ganolfan Menter Greadigol Galeri newydd.

**Gwersi a ddysgwyd**

- Gellir gwireddu gweledigaethau mawr – gyda llawer o gymhelliant a phenderfyniad, ond hyblygrwydd hefyd;
- Wrth gynllunio eich prosiect, sicrhewch fod datblygiad ased a chynhyrchu incwm yn rhan o'r broses gynllunio o'r cychwyn;
- Roedd angen datblygu agweddau sefydliadol, adnoddau dynol a sgiliau er mwyn cynyddu'r staff o 4 yn 2002 i 40 yn 2006. Mae nifer o'r aelodau staff wedi datblygu eu hunain yn y sefydliad ac wedi aros yn y sefydliad, ac mae ganddynt fwy o rolau neu gyfrifoldebau;
- Sicrhewch fod eich syniadau wedi eu llunio'n ofalus, yn effeithiol, eu bod yn cynnig y gwerth gorau am arian a'u bod (yn bwysicach na dim) yn ddeniadol i fuddsoddwyr statudol neu fuddsoddwyr o'r sector preifat;
- Gweithiwch ag unigolion, grwpiau a sefydliadau lleol, fel bod eich cymuned leol yn rhan o'r hyn sy'n digwydd; and
- Peidiwch fyth ag ildio, hyd yn oed os na fydd y partneriaid allweddol yn parhau i ymrwymo i'ch gweledigaeth.

**Cysylltwch â:**
**Gwyn Roberts**
Prif Weithredwr
gwyn.roberts@galericaernarfon.com
01286 685 250
Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu
Cymru info@dtawales.org.uk
02920 190 260

# 8 Cambrian Aquatics/Pwll Nofio Cei Connah



## Mae Pwll Nofio Cei Connah yn bwll nofio sydd wedi'i hen sefydlu yn ardal Sir y Fflint. Cafodd ei adeiladu yn y 60au ac mae wedi'i bod yn werthfawr i'r gymuned leol ers hynny.

O wynebu y pwysau ar gyllidebau Cyrff Cyhoeddus, gwahoddodd Cyngor Sir y Fflint y gymuned leol i fod yn gyfrifol am redeg y pwll fel rhan o Drosglwyddiad Ased Cymunedol.
Y gobaith oedd y byddai hyn yn golygu bod modd cadw'r pwll ar agor, neu osgoi gorfod lleihau oriau agor ar draws cyfleusterau hamdden y sir. Mewn ymgais i sicrhau hyfywedd ariannol hirdymor, ac i redeg y pwll, lluniodd grŵp o bedwar cyfarwyddwr y fenter gymdeithasol Cambrian Aquatics, gan weithio gyda Cyngor Fflint, Nofio Cymru, Chwaraeon Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru, a cwblhawyd y broses o drosglwyddo'r ased ym mis Mai 2016.

ystadau cymru

**Busnes**

Caiff Cambrian Aquatics ei arwain gan fwrdd o bedwar Cyfarwyddwr gydag amrywiol gefndiroedd ond diddordeb cyffredinol yng Nghlwb Nofio a Phwll Nofio Cei Connah. Cwblhaodd y grŵp, gyda chefnogaeth Busnes Cymdeithasol Cymru, y trosglwyddiad ym mis Mai 2016, a cafodd gefnogaeth cronfa gyfalaf gwerth £150 mil gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfer cynnal y pwll a'i gyfleusterau. Ers hynny, mae wedi defnyddio £65 mil (o'r gronfa gyfalaf) i wella'r to, y pwll a pheiriannau'r pwll. Cafodd Cambrian Aquatics gymorth pellach gan Gyngor Tref Cei Connah, Chwaraeon Cymru a Nofio Cymru.

Mae Cambrian Aquatics yn ceisio darparu llwybr i bobl ifanc greu gyrfa yn y diwydiant hamdden yn eu hardal leol. Mae Cambrian Aquatics yn sefydliad di-elw cyfyngedig trwy warant ac mae'n anelu at fod yn hollol gynaliadwy drwy gronfeydd creu incwm.

Ers cwblhau'r trosglwyddiad, mae Cambrian Aquatics wedi ehangu cyfleusterau'r pwll,gan gynnig rhaglenni newydd i'r anabl a rhaglenni perfformiad uchel gyda Clwb Nofio Cei Connah. Y bwriad yw dod yn brif sefydliad 'dysgu nofio' Nofio Cymru yn yr ardal, gan eu bod wedi llwyddo i gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu nofio. Mae'r grŵp wedi cyflwyno'r cynllun Pasbort Dŵr, ble y gall plentyn a rhiant ddilyn y cynnydd sy'n cael ei wneud drwy wefan y pasbort dŵr.

Mae Cambrian Aquatics yn cydweithio'n agos â 14 o ysgolion cynradd, ac mae wedi defnyddio'r cyfleusterau i ddod â plant i'r pwll ac i ddefnyddio'r caffi a'r ystafell gyfarfod fel ystafell ddosbarth, sy'n caniatáu i ysgolion ddod â hyd at ddau ddosbarth ar yr un pryd.

Caiff Cambrian Aquatics ei gefnogi gan Coleg Cambria, y Gymdeithas Frenhinol Achub Bywyd a Nofio Cymru i gynnig addysg, prentisiaethau a chyfleoedd i hyfforddi ar lefel genedlaethol. Gall breswylwyr gymryd rhan mewn dros 60 o chwaraeon dŵr yn y pwll, o nofio a snorclo i polo dŵr a ceufadu (kayaking).

## Manteision

Mae Cambrian Aquatics wedi creu 27 o swyddi newydd, ac o'r rhain, mae 11 yn llawn-amser ac 16 yn staff dros dro. Mae'r grŵp yn gweithio gyda Coleg Cambria i gynnig cynlluniau prentisiaeth gyda chefnogaeth Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol ar lefel 3 mewn chwaraeon a hamdden. Mae pob staff wedi'u hyfforddi yn llawn ac mae ganddynt o leiaf lefel 2 mewn hyfforddi nofio (lefel uchaf y cymhwyster). Mae hyn yn helpu gyda lefelau staffio o gymharu â chyfleusterau lleol. Gwahoddir staff, ac yn wir fe'u hanogir i ymweld ag ysgolion i roi cyflwyniadau caffi nofio i blant o bob oedran.

Gan bod angen adnewyddu'r pwll, roedd modd i Cambrian Aquatics, gyda chefnogaeth y gymuned a'r clwb nofio, lanhau a chynnal y cyfleusterau cyn agor i'r cyhoedd, ac mae hyn wedi creu dilyniant gref o fewn y gymuned, ac mae'r rhai sy'n rhan o'r cynllun yn teimlo perchnogaeth, ac yn awyddus i gadw'r safonau uchel hyn. Bu myfyrwyr o Goleg Cambria sy'n astudio ar gyfer Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Cynnal a Chadw Adeiladau yn peintio ac addurno'r adeilad a cawsant brofiad gwirioneddol a chredyd tuag at eu cwrs. Mae hyn wedi cryfhau y berthynas gyda'r coleg.

## Gwersi wedi'u Dysgu

- Roedd Cambrian Aquatics yn teimlo bod y broses yn hir a chymhleth, ac roedd diffyg cydlynu yn y broses o wneud penderfyniad ynghylch trosglwyddo staff TUPE. Er yn cymryd amser, roedd y cyngor wedi cadw staff a chafodd 27 o swyddi newydd eu creu a'u llenwi drwy recriwtio staff dros dro y cyngor. Diolch i'r cymorth gan Nofio Cymru, roedd hyfforddiant a chymwysterau ar gael i bob staff newydd.
- Roedd Cambrian Aquatics yn ei chael yn anodd i fynd drwy'r prosesau grant/cyllido gan nad oedd yn glir pa rai o'r nifer o grantiau oedd ar gael oedd yn addas i'w defnyddio. Roedd ffurflen gais y cyngor yn cynnwys pob math o grantiau, ac nid oedd nifer o'r cwestiynau/sylwadau yn addas i'r cais hwn. Fodd bynnag, cynhaliodd Cambrian Aquatics fforwm grantiau gan wahodd mentrau trosglwyddo asedau eraill i fod yn bresennol, ac roedd hyn yn rhoi gwybodaeth a chyngor am y broses a dulliau o ariannu.

**Cyswllt:**
**Simon Morgan**
Cyfarwyddwr Cambrian Aquatics
simon@cambrianaquatics.com

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38146